

DOLEN Y TAB – 44

26–27 CHWEFROR 2021

OEDFA RITHIOL 28 CHWEFROR

'Gwnewch y pethau bychain' fydd thema oedfa Gŵyl Dewi Sant fore Sul, yng ngofal Lowri, Dafydd a'r teulu.

OEDFAON MIS MAWRTH

- 7 Y Parchg. Aled Edwards.
- 14 Edwyn Evans.
- 21 Y Parchg. Gethin Rhys.
- 28 Emlyn Davies.

Hefyd ar 28 Chwefror . . .

Yr Oedfa Ddigidol: ar gael o 10.30

Ar drothwy Dydd Gŵyl Dewi, bydd y Parchg. Gareth Ioan – gweinidog eglwysi Bryn Iwan, Blaen-y-coed, Nanternis a Moriah, Blaen-waun – yn ystyried ein Nawddsant ac effaith Cristnogion a drawsnewidiodd ein gwlad dros y canrifoedd.

<http://annibynwyr.org/>

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Ymunwch i nodi Dydd Gŵyl Dewi Sant yng nghwmni'r Parchg. Ddr. Manon Ceridwen James, Athrofa Padarn Sant, Caerdydd.

12.00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal y Parchg. John Gwilym Jones, Caerfyrddin.

12.30 Radio Cymru

Bwrw Golwg gyda John Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru


Croeso Gartref

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Gwilym Treharne, Nant y Felin, Efail Isaf sydd bellach yn gwella gartref wedi iddo dreulio ychydig amser yn yr ysbyty'n ddiweddar.

'Gwnewch y pethau bychain...'

Mae geiriau olaf Dewi Sant yr un mor berthnasol heddiw os nad yn fwy felly na phan lefarwyd hwy gyntaf bymtheg canrif yn ôl. Yn *Bwletin Polisi Cytûn*, mis Chwefror (<https://www.cytun.co.uk/>) pwysleisir nad argyfwng y pandemig yw'r unig argyfwng mae Cymru'n ei wynebu, gan fod yna hefyd '*argyfyngau o ran newid hinsawdd a cholli byd natur*'. Y gwir yw y bydd yr argyfyngau hyn yn parhau ymhell ar ôl i ni weld cefn ar fygythiad Covid-19.

Yn y bwletin, gwahoddir pob eglwys i anelu at fod yn [EcoEglwys](#) ac uniaethu â datganiad Clymblaid yr Hinsawdd sy'n galw ar i'r Deyrnas Gyfunol achub y cyfle i gadeirio cynhadledd hinsawdd fyd-eang [COP26](#) yn Glasgow ym mis Tachwedd, ac arwain y byd o ran lleihau'r allyriadau sy'n cyflymu'r argyfwng hinsawdd. Gall eglwysi hefyd ymuno â chlymblaid climate.cymru, gaiff ei lansio ddydd Llun 1 Mawrth, i sicrhau bod gan fudiadau Cymru lais yn y gynhadledd hollbwysig hon. Oes, mae cyfle i ni yma yn eglwys y Tabernacl, ac fel unigolion, i wneud ein rhan – pa mor fach bynnag fo hynny – er mwyn achub y cread rhag dinistr.



**COFIWCH AM
BYTHEFNOS MASNACH DEG
22/2/2021 – 07/3/2021**

Sawl Dewi Sant sydd?

A ninnau ar drothwy Dydd Gŵyl Dewi Sant, mae'r cwestiwn yma'n taro'n od ar yr olwg gyntaf. Ond dyma'r union gwestiwn mae Gerald Morgan yn ei godi mewn ysgrif ganddo a welir yn rhifyn Ionawr/Chwefror **Agora**, cylchgrawn digidol *Cristnogaeth 21*:



<http://cristnogaeth21.cymru/agora-2/>

Gan ein bod eleni, am y tro cyntaf o fewn cof y mwyafrif ohonom, yn methu cynnal y gweithgareddau niferus ac arferol a drefnir ym mhob cymuned ledled Cymru ac mewn mannau ar draws y byd o gwmpas y cyntaf o Fawrth, efallai mai dyma'r union adeg i ddysgu mwy amdano.

Buchedd Dewi

Y ffynhonnell gynharaf sy'n cynnig portread o fywyd a gweithredoedd Dewi yw'r fuchedd Lladin, *Vita Davidis*, a luniwyd gan Rhygyfarch ap Sulien ar ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg ac a addaswyd i'r Gymraeg yn ddiweddarach fel *Buchedd Dewi*. Mae problem wrth geisio sefydlu pa mor ddibynadwy yw'r ffynonellau hyn, a hynny'n rhannol am i'r testun gael ei ysgrifennu dros bum can mlynedd ar ôl marwolaeth Dewi ar ddiwedd y chweched ganrif. Rhaid cofio hefyd mai'r prif gymhelliad dros gasglu deunydd ar gyfer llunio buchedd o'r fath oedd cynhyrchu datganiad o hawl y gwrthrych i gael ei gydnabod fel sant. Y fformwla gydnabyddedig oedd '*crynhoi hanes genedigaeth wyrthiol y sant a'i fedyddio, ei addysg, ei fawrion weithredoedd gwyrthiol, a'i farwolaeth yn sawr sancteiddrwydd*'. Er bod Rhygyfarch yn honni bod y fuchedd wedi ei seilio ar hen lawysgrifau, mae haneswyr o'r farn bod y gwaith yn gymysgedd o'r gwyrthiol a'r hanesyddol ac felly mewn cytgord â fformwla draddodiadol bucheddau'r saint. Ysgogiad arall dros lunio'r fuchedd i Dewi'n benodol oedd i bledio hawl Tyddewi i fod yn brif esgobaeth Cymru ac yn annibynnol ar Gaergaint. Fel mab i Sulien, a oedd yn esgob Tyddewi ar ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg, yn ddiau roedd yna gymhelliad teuluol hefyd i geisio codi statws yr eglwys.

Os mai ffrwyth dychymyg Rhygyfarch yw rhannau o gynnwys *Buchedd Dewi*, pa bethau allwn ni fod yn fwy hyderus eu bod yn ffeithiol gywir? Yn ei ysgrif yn *Agora* mae Gerald Morgan yn '*araf ddatgelu*' portread cryno iawn ond llawer mwy dibynadwy ar sail tystiolaeth a gasglwyd ganddo o nifer o ffynonellau. Dyma'r prif ffeithiau am Dewi:

- roedd yn ddyn go iawn yn byw yn ne orllewin Cymru yn y chweched ganrif;
- tystia ei enw, Dafydd (> Dewi) iddo gael ei fedyddio'n Gristion;
- roedd yn arweinydd ar urdd fynachaidd ddisgybledig iawn, a byddai'n bwyta bwyd plaen yn unig ac yfed dim heblaw dŵr;
- byddai'n treulio ei ddiwrnod gwaith yn trin y tir, gan ddibynnu'n llwyr ar nerth braich a gwrthod manteisio ar anifail i aredig; gweddïo, darllen neu ysgrifennu fyddai am weddill y dydd;
- bu farw ar 1af o Fawrth.

Os derbynnir naratif *Buchedd Dewi*, yna'r geiriau olaf a draddodwyd gan Dewi oedd '*cadwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi*'. Neges yw hon sydd yr un mor werthfawr a pherthnasol heddiw ag y bu erioed.

Os am ragor o wybodaeth am Dewi Sant, mae modd troi at lyfr Gerald Morgan ***Ar Drywydd Dewi Sant*** a gyhoeddwyd gan Y Lolfa yn 2016 (pris £5.99). Yn y gyfrol honno mae'r awdur yn olrhain y cwtl a dyfodd o amgylch enw Dewi o gyfnod Sieffre o Fynwy a Gerallt Gymro ymlaen hyd at orymdeithiau Dydd Gŵyl Dewi Sant ein dyddiau ni.

Dros y canrifoedd, ceir lluo o enghreifftiau o garfanau o Gymry yn hawlio perchnogaeth o Dewi i gefnogi achosion gwahanol, boed y rheiny'n rhai crefyddol, milwrol, diwylliannol neu wleidyddol. Dyma, felly'r eglurhad dros y cwestiwn rhyngol yn y pennawd uchod. Ond carwn orffen trwy ddyfynnu Gerald Morgan wrth gloi ei ysgrif yn ***Agora***: '*Awn ninnau felly, yn enw Dewi, i wneud y pethau bychain, ac i gadw ein ffydd a'n cred.*'

Cofiwch hefyd am *Dechrau Canu Dechrau Canmol* am 7.30 nos Sul, pryd bydd Huw Edwards yn holi Gerald Morgan am hanes Dewi.

Cylchlythyr wythnosol yw ***Dolen y Tab*** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.

